# Briffiad Cymorth i Ferched Cymru ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Bydd y briffiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Cymorth i Ferched Cymru i dynnu sylw a darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru fod y Ddeddf yn newidiol i bob math o ddarpariaeth lloches a'r goroeswyr sy'n eu defnyddio.

Mae cyflwyno'r Ddeddf yn golygu bod pob goroeswr sy'n preswylio mewn lloches am dros chwe mis (y 'cyfnod perthnasol') yn symud yn awtomatig i gontract safonol â chymorth, oni bai eu bod yn gallu cael tri mis o estyniad wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Mae amgylchiadau gwahanol yn gymwys os oes dyletswydd digartrefedd wedi'i derbyn, os yw goroeswr wedi bod mewn lloches am chwe mis ar y dyddiad cyflwyno neu os nad oes gan oroeswr hawl i gyllid cyhoeddus.

## Crynodeb o'n prif bryderon am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

- Risg diogelu
- Baich gweinyddol ychwanegol ar y lloches
- Baich gweinyddol ychwanegol ar awdurdodau lleol
- Cymhlethdod 'statws tenantiaeth' preswylwyr
- Cost ariannol i'r lloches
- Blocio gwelyau
- Tanseilio prif ddiben lloches fel hafan ddiogel
- Diffyg arweiniad statudol ar ymestyn y cyfnod perthnasol

## Cefndir Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Cyflwynwyd Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) ar 9 Chwefror 2015[1] a daeth i rym ar 1 Rhagfyr 2022. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r ddeddfwriaeth yn dod ag eglurder i'r gyfraith ac yn dileu dryswch

[1] https://senedd.wales/Research%20Documents/Renting%20Homes%20(Wales)%20Bill%20%20-%20Stage%202/15-041.pdf.

i landlordiaid a thenantiaid[2] ac roedd yn seiliedig ar y weledigaeth a osodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2013[3]. Dywedwyd mai'r Ddeddf yw un o'r newidiadau mwyaf i gyfraith tai yng Nghymru ers degawdau[4], a'r bwriad yw darparu sicrwydd deiliadaeth i bawb sy'n rhentu.

Ymatebodd Cymorth i Ferched Cymru i ymgynghoriadau[5] yn ystod amrywiol gamau'r Ddeddf, ond ni ymgynghorodd Lywodraeth Cymru â hwy fel arbenigwyr yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru. Credwn yn gryf felly na chafodd lleisiau gwasanaethau arbenigol a goroeswyr eu hystyried wrth gyflwyno a gweithredu'r Ddeddf. Yn ein hymatebion i ymgynghoriadau amlygwyd pryderon gan gynnwys bod nifer o fenywod yn preswylio mewn llochesi dros chwe mis yn bennaf oherwydd diffyg llety addas i symud ymlaen iddo, ac felly y byddent yn cael contract safonol â chymorth na fyddai'n gwneud dim ond gwaethygu problemau fel blocio gwelyau[6]. Wyth mlynedd ar ôl cyflwyno'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn 2015, mae'r nifer o oroeswyr sy'n preswylio mewn lloches am dros chwe mis wedi tyfu'n sylweddol oherwydd diffyg llety priodol yng Nghymru ac nid yw'r galw am ddarpariaeth lloches argyfwng dros dro wedi arafu yn dilyn blynyddoedd o lymder, pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw.

Er ein bod yn cydnabod ac yn cymeradwyo cyflwyno gwell sicrwydd i bobl sy'n rhentu'n breifat, fel y cynnydd yn y cyfnod rhybudd ar gyfer troi allan heb fai a gwell hawliau olyniaeth, nid ydym yn credu bod hyn yn addas ar gyfer natur hyblyg ac argyfyngol darpariaeth lloches. Nid oes byth unrhyw fwriad i loches fod yn 'gartref' ac mae goroeswyr yn byw yno am eu bod yn ffoi rhag risg uniongyrchol o niwed difrifol neu farwolaeth. Mae darpariaeth lloches yn sicrhau bod goroeswyr a'u plant yn cael eu cadw'n ddiogel a'u cefnogi tan iddynt allu symud i lety tymor hir mwy addas. Mae darpariaeth lloches yn dibynnu ar denantiaethau hyblyg, fel trwyddedau, fel bod modd symud goroeswyr ymlaen yn gyflym pan nad yw'r lloches bellach yn briodol iddynt. Gallai hyn fod oherwydd bod y lleoliad wedi'i ddatgelu i'r cyflawnwr/wyr neu am fod angen cymorth arbenigol arall oherwydd iechyd neu iechyd meddwl gwael. Rydym yn credu'n gryf bod cyflwyno'r Ddeddf hon yn golygu y gallai system lloches VAWDASV Cymru chwalu ac y bydd, fel sydd wedi digwydd eisoes, yn arwain at ganlyniadau difäol i oroeswyr a'r ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol. Ni chredwn fod y Ddeddf wedi bod o fudd i unrhyw oroeswr sydd ar hyn o bryd yn byw mewn llety lloches dros dro.

---

[2] https://research.senedd.wales/research-articles/the-law-on-renting-homes-in-wales-is-about-to-change/.
[3] https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2015/03/lc337_renting_homes_in_wales_english-language-version.pdf.
[4] https://www.gov.wales/housing-law-changed-renting-homes
[5] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Consultation-on-the-Renting-Homes-Wales-Bill.pdf and https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Cymorth i Ferched Cymru-Response-Renting-Homes-Fees-Act.pdf
[6] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Consultation-on-the-Renting-Homes-Wales-Bill.pdf.

**Pryderon ynghylch Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

- Y baich gweinyddol ar wasanaethau sydd eisoes wedi'u gorymestyn, oherwydd y byddant yn gorfod ymgeisio am estyniad i'r cyfnod perthnasol ac felly dreulio amser yn cwblhau tasgau gweinyddol yn hytrach na darparu cymorth rheng flaen
- Diogelu v Contractau Meddiannaeth – yr anhawster o beidio â gallu symud goroeswr ymlaen pan na all aros yn y lloches yn ddiogel mwyach, a all fod am resymau megis y cyflawnwr yn canfod y lleoliad neu fod angen cymorth arbenigol pellach ar y goroeswr. Pan nad oes modd dod i gytundeb, bydd rhaid cyflwyno cyfnod rhybudd o ddau fis, fydd yn golygu bod y risg o niwed difrifol i oroeswyr a staff yn parhau dros y cyfnod hwn.
- Ceir pedwar senario gwahanol y gallai goroeswyr fod ynddynt ar ôl chwe mis o fyw mewn lloches:
    - Nid oes gan y goroeswr hawl i gyllid cyhoeddus felly bydd yn parhau ar gytundeb trwydded.
    - Mae estyniad wedi'i geisio a'i ganiatáu gan yr awdurdod lleol felly mae'r cyfnod perthnasol wedi'i estyn am hyd at dri mis.
    - Bydd y goroeswr ar gontract safonol â chymorth oherwydd na wnaed cais am estyniad neu na chafodd ei gymeradwyo neu am eu bod yn y lloches ers chwe mis ar ddyddiad gweithredu'r Ddeddf.
    - Mae dyletswydd digartrefedd wedi'i chymeradwyo gan yr awdurdod lleol felly y cyfnod perthnasol bellach yw deuddeg mis cyn gorfodi contract safonol â chymorth.
- Cost Ariannol – Gall y gost o orfod mynd a goroeswr i'r llys neu gael gorfodeb os nad yw'n gadael fod o ddeutu £4,500 heb achos. Bydd cost cyfieithu'r contract safonol â chymorth i iaith hawdd ei darllen ac ieithoedd niferus yn uchel.
- Blocio gwelyau pan fydd y galw'n sylweddol uchel. Pan fydd staff yn gwybod bod goroeswr wedi gadael y lloches ac na fydd yn dod yn ôl, bydd angen aros pedair wythnos cyn ailfeddiannu'r ystafell.
- Diffyg arweiniad statudol ar sut mae Awdurdodau Lleol yn derbyn neu'n caniatáu estyniadau i'r cyfnod perthnasol sy'n golygu bod gan bob Awdurdod Lleol ffordd wahanol o weithio.

## Cyn cyflwyno – cyn 1 Rhagfyr 2022

Yn dilyn pryderon a godwyd gan aelod-wasanaethau am gyflwyno'r Ddeddf, trefnodd Cymorth i Ferched Cymru 'Sesiwn Datblygu Ymarfer' ym mis Tachwedd 2022 i staff aelod-wasasanaethau arbenigol ledled Cymru. Gwahoddwyd Simon White, Pennaeth Deddfwriaeth Tai Llywodraeth Cymru, a siaradwr o Shelter Cymru. Nod y sesiwn oedd deall y newidiadau allweddol yn y Ddeddf, a thrafod pryderon y sectorau VAWDASV gydag arbenigwyr tai. Yn ystod y cyfarfod, nododd y Pennaeth Deddfwriaeth Tai na fyddai unrhyw eithriad o'r darpariaethau ar gyfer llety lloches oedd yn peri pryder, gan ddweud y byddai diwygiadau o'r fath yn golygu newid i ddeddfwriaeth sylfaenol. Roedd Cymorth i Ferched Cymru a'n haelodau'n teimlo nad oedd ein pryderon wedi'u clywed na bod difrifoldeb yr effaith ar ddarpariaeth lloches a goroeswyr wedi'i ddeall yn llawn.

Yn ystod y Sesiwn Lawn ar 29 Tachwedd, cyflwynodd Janet Finch-Saunders AS a Sioned Williams AS ein pryderon i Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd[7]. Pwysleisiodd Sioned Williams AS ein pryderon ynghylch rheolaeth ddiogel mewn llochesi, gwahaniaethau rhwng hawliau goroeswyr, ac nad yw'r Ddeddf yn sylfaenol yn ystyried sefyllfa unigryw llochesi[8]. Yn ei hymateb nododd y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd y byddai Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos gyda'r sector i fynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth, gan nodi effeithiau negyddol ac ystyried camau gweithredu pellach[9].

Er bod Cymorth i Ferched Cymru'n credu'n gryf nad oeddem wedi camddeall y Ddeddf, roeddem ni'n croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i drafod ein pryderon ymhellach ac yn obeithiol am yr opsiynau a allai godi.

## Ar ôl cyflwyno – 1 Rhagfyr 2022 ymlaen

### Gweithredu gan Cymorth i Ferched Cymru

Ar 1 Rhagfyr, y diwrnod y daeth y Ddeddf i rym, anfonodd Cymorth i Ferched Cymru lythyr agored[10] oedd wedi'i lofnodi gan 19 o aelod-wasanaethau i'r Cynghorwyr VAWDASV Cenedlaethol, Jane Hutt AS: y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Phrif Chwip a Julie James AS: y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd. Fe'i rhannwyd yn gyhoeddus hefyd ar wefan a thudalen twitter Cymorth i Ferched Cymru[11]. Roedd y llythyr yn amlygu'r alwad frys i eithrio llochesi o'r Ddeddf a phryderon amrywiol y sector VAWDASV.

[7] https://record.assembly.wales/Plenary/13049#A76121.
[8] ibid, 257.
[9] Ibid, 266.
[10] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/Welsh-Womens-Aid-Renting-Homes-Act-Open-Letter.pdf
[11] https://twitter.com/WelshWomensAid/status/1598370130299330560.

Cymorth i Ferched Cymru sy'n darparu ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Merched ac ar 2 Rhagfyr 2022 cynhaliwyd cyd-gyfarfod gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod. Yn y cyfarfod hwn codwyd pryderon penodol am oroeswyr heb hawl i gyllid cyhoeddus a'r Ddeddf. Yn dilyn hyn anfonodd cadeiryddion y ddau Grŵp Trawsbleidiol Sioned Williams AS a Siân Gwenllian AS, lythyr ar y cyd at y Gweinidog Jane Hutt, AS yn mynegi eu pryderon.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cefnogi gwasanaethau aelod-sefydliadau ym mhob ffordd bosibl i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth wrth geisio llywio drwy'r Ddeddf a lleihau ei niwed. Rydym wedi trefnu 'Fforymau Rhentu Cartrefi' rheolaidd lle mae aelodau wedi gallu trafod unrhyw bryderon neu gwestiynau. Mae Bargyfreithiwr wedi mynychu'r rhan fwyaf o'r fforymau hyn i alluogi Cymorth i Ferched Cymru i ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'n anffurfiol. Caiff aelodau eu hysbysu'n rheolaidd am unrhyw ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru ac maent yn gallu ceisio cymorth gan Cymorth i Ferched Cymru fel bo'r angen. Rydym hefyd wedi rhannu cytundebau templed sydd wedi'u darparu gan ein cwnsler cyfreithiol, i helpu ein haelodau gyda'r newidiadau a gyflwynwyd dan y Ddeddf. Mae'r rheini sy'n gweithio yn y sector VAWDASV arbenigol yn arbenigwyr yn eu maes ac yn aml yn gorfod llywio drwy newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi, ond mae cyflwyno'r Ddeddf hon wedi gosod pwysau sylweddol ar wasanaethau sydd eisoes yn profi anawsterau oherwydd cadw staff, cynnydd yn y galw, a'r argyfwng costau byw.

**Gwaith gyda Llywodraeth Cymru**

Ar y dechrau, roedd Cymorth i Ferched Cymru'n obeithiol ynghylch gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r pryderon sylweddol na chredwn y byddant yn lleddfu hyd nes y caiff eithriad ei ddarparu i bob math o ddarpariaeth lloches. Mae'r Ddeddf bresennol yn peryglu diogelwch yr holl staff a goroeswyr sy'n preswylio mewn lloches ac rydym ni'n bryderus iawn fod y darn hwn o ddeddfwriaeth tai'n drech na diogelu.

Cawsom sawl cyfarfod gydag Isadran Polisi Tai Llywodraeth Cymru gyda'r cyntaf ym mis Rhagfyr 2022. Yn y cyfarfod cynnar hwn cafwyd eglurder ynghylch y ddyletswydd digartrefedd, y rheini heb hawl i gyllid cyhoeddus, a'r sicrwydd nad oedd llochesi'n cael eu cyfrif yn llety sefydlog neu barhaol. Drafftiodd Llywodraeth Cymru lythyr i awdurdodau lleol oedd yn egluro dyletswydd digartrefedd awdurdodau lleol a hysbysiad cyfarwyddyd ar lety â chymorth, gyda sylwadau gennym ni i sicrhau bod hyn yn addas i'r diben. Roeddem ni'n croesawu bod bron pob un o'n sylwadau wedi'u mabwysiadu. Ochr yn ochr â hyn, darparodd Llywodraeth Cymru hefyd gontract safonol cyfnodol â chymorth enghreifftiol a rhestr o fanylion cyswllt arweinwyr awdurdodau lleol er mwyn i ni eu rhannu gyda'n haelodau. Er bod Cymorth i Ferched Cymru'n croesawu'r eglurder a'r manylion a gafwyd am y Ddeddf, credwn yn gryf fod y camau gweithredu hyn yn ddim mwy na lliniariad i ddarn o

ddeddfwriaeth na chrëwyd ar gyfer darpariaeth lloches, ac nad yw'n addas ar ei chyfer. Credwn yn sylfaenol nad yw'r Ddeddf yn darparu unrhyw fudd i'r goroeswyr hynny sy'n preswylio mewn lloches nac i'r goroeswyr a allai ryw ddiwrnod geisio diogelwch mewn lloches.

Rydym ni wedi cynhyrchu pedwar briffiad gwahanol ar gais Llywodraeth Cymru sydd wedi amlygu effaith ddinistriol y Ddeddf ar y sector arbenigol, goroeswyr a staff. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd cael sail tystiolaeth gadarn sy'n amlygu ac yn cefnogi ein pryderon, mae gofyn am ddata pellach yn barhaus yn dibynnu'n drwm ar allu ein gwasanaethau arbenigol i gael amser i ddarparu'r data hwn, a hwythau eisoes wedi'u gorymestyn. Ceir cafeat bob tro ar yr holl dystiolaeth ac ystadegau rydym ni wedi'u darparu i Lywodraeth Cymru gyda'r ddealltwriaeth eu bod yn adlewyrchu gwasanaethau sydd â'r capasiti i ymateb, ac na fwriedir iddynt gynrychioli darlun terfynol o loches.

Yn ystod ein cyfarfod diweddaraf gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin i drafod y pedwerydd briffiad a baratowyd gennym yn dilyn cais am ragor o dystiolaeth, amlygwyd eu bod yn teimlo nad oedd gennym sail ddigon cadarn o dystiolaeth i wneud unrhyw newid deddfwriaethol. Nododd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai gwneud unrhyw newid deddfwriaethol yn dileu hawliau unigolion. Rydym ni'n anghytuno'n sylfaenol gyda hyn. Ni fyddai eithriad yn dileu hawliau goroeswyr, ond yn hytrach yn gadael iddynt aros ar gytundeb trwydded hyblyg sy'n sicrhau bod modd rhoi hysbysiad gadael di-oed, mewn amgylchiad lle nad yw'n ddiogel iddynt aros mewn lloches mwyach. Rhaid nodi mai rhywbeth a fyddai'n digwydd ar ôl i bopeth arall fethu fyddai'r sefyllfa hon, ac y byddai llety amgen yn cael ei geisio i'r goroeswr, gan sicrhau bod amgylchedd lloches ddiogel yn cael ei gynnal. Nid ydym erioed wedi cynnig dileu hawliau goroeswyr; mae darpariaeth lloches yn gweithio i sicrhau bod goroeswyr a'u teulu'n cael eu cadw'n ddiogel rhag risg uniongyrchol o niwed difrifol a marwolaeth a'u bod yn cael eu cynorthwyo i reoli eu trawma ac ailadeiladu eu bywydau. Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd nad yw rhai o'r pryderon a godwyd gennym yn benodol i lochesi a chredwn fod natur lloches, sy'n achub bywydau, yn cael ei gwanhau pan geir diffyg dealltwriaeth nad oes angen sicrwydd daliadaeth mewn llety sydd i fod yn llety dros dro yn unig. Yn ddelfrydol ni ddylai goroeswyr orfod preswylio mewn lloches am fwy na chwe mis, ond ar hyn o bryd ceir diffyg sylweddol o lety addas a phriodol i oroeswyr symud iddo, ac ni chaiff hyn ei ddatrys cyn i oroeswyr eraill ddioddef effaith negyddol yn sgil y Ddeddf.

Er ein bod yn credu'n gryf nad yw'r Ddeddf wedi bod o fudd i unrhyw oroeswr mewn lloches a bod y 'datrysiadau' yn fodd o liniaru Deddf nad yw'n addas ar gyfer darpariaeth lloches, mae Llywodraeth Cymru'n credu bod ein tystiolaeth yn gymharol fach ac annigonol. Mae'n bryder sylweddol i ni nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod ein pryderon na'r effaith ar oroeswyr yn ddigon pan fo staff llochesi'n gorfod jyglo staff diogelu a goroeswyr ochr yn ochr â gweithredu'r Ddeddf. Cafwyd achosion mewn llochesi lle cafwyd pryderon difrifol y byddai goroeswr neu aelod o staff yn cael eu hanafu am nad yw'r goroeswr yn dymuno gadael er nad yw'n lle diogel iddynt bellach. Dim ond trwy

lwc rydym ni wedi osgoi achos trychinebus o niwed difrifol neu ladd, ac mae'n ein dychryn nad yw Llywodraeth Cymru'n gallu gweld y potensial y gallai hyn ddigwydd os na chaniateir eithriad. Os yw Deddf yn cael effaith niweidiol ar un goroeswr, rydym yn credu'n sylfaenol bod hynny'n ddigon o warant a thystiolaeth ar gyfer newid y ddeddfwriaeth, a chredwn fod y cysyniad nad oes digon o bobl yn cael eu niweidio yn fesur didostur.

## Ymgynghoriad arfaethedig ar eithrio llety gwely a brecwast

Ar 21 Gorffennaf 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad agored ar Rentu cartrefi: llety gwely a brecwast a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd sy'n ceisio barn ar ddiwygiadau posibl i Atodlen 2 y Ddeddf.

Byddai'r diwygiadau posibl yn atal llety gwely a brecwast a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd rhag bod yn gontract meddiannaeth. Yn ôl y sail resymegol am y penderfyniad posibl hwn "nid oedd disgwyliad y byddai person sy'n ddigartref yn byw mewn llety gwely a brecwast yn ddigon hir i gontract meddiannaeth ddod i rym .... Fodd bynnag, mae'r prinder presennol o lety dros dro … yn golygu bod angen gwaharddiad o'r fath yn erbyn hyn, oherwydd bod llety gwely a brecwast yn cael ei ddefnyddio'n fwy helaeth ac am gyfnodau hirach".

Does gan bobl sy'n ffoi i loches ddim dewis arall a byddent fel arall yn ddigartref. Bwriedir i loches fod yn llety dros dro mewn argyfwng yn unig, i sicrhau diogelwch a chymorth i oroeswyr a'u teulu tan iddynt allu symud i lety tymor hir mwy priodol. Ni fu erioed yn fwriad i oroeswyr aros mewn lloches am gyfnod digon hir i gontract meddiannaeth godi, ond mae hyn yn ganlyniad sylweddol i'r diffyg llety addas a phriodol i symud iddo. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai modd cyflawni eithriad ar gyfer llochesi, a phan dynnom ni sylw at ymgynghoriad cyhoeddus fel opsiwn, gwrthodwyd hyn hefyd. Dywedwyd nad oedd ein sail o dystiolaeth yn ddigon cadarn, fodd bynnag nid yw'n glir pa lefel na math o dystiolaeth a ddarparwyd i ganiatáu i'r ymgynghoriad hwn fynd yn ei flaen ac i newid gael ei wneud yn ddiweddarach.

Rydym yn gwerthfawrogi bod ymagwedd Llywodraeth Cymru na ddylai neb gael eu gadael allan wedi arwain at nifer uwch o bobl mewn llety dros dro. Fodd bynnag nid ydym yn deall y sail resymegol ar gyfer anwybyddu eithriad i ddarpariaeth lloches, pan ystyriwyd bod y newid arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer eithriadau gwely a brecwast yn addas ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## Rhestr gronolegol o ddigwyddiadau

**27/07/2015** – Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i'r Ymgynghoriad ar Fil Rhentu Cartrefi (Cymru)

**19/07/2019** – Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (ffioedd ac ati) (Cymru) 2019

**03/11/2022** – Sesiwn Datblygu Ymarfer gyda Simon White, Pennaeth Polisi Tai, Llywodraeth Cymru

**29/11/2022** – Sesiwn Lawn yn y Senedd – Sioned Williams AS a Janet Finch-Saunders AS yn codi pryderon, gydag ymateb gan Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd.

**01/12/2022** – Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn dod i rym a llythyr agored gan Cymorth i Ferched Cymru i Ymgynghorwyr Cenedlaethol, Jane Hutt AS, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd. Rhannwyd y Llythyr Agored hefyd ar wefan Cymorth i Ferched Cymru a thrwy twitter.

**06/12/2022** – Cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru

**07/12/2022** – Anfon llythyr at Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd ar ran y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod a Thrais yn erbyn Menywod a Phlant, mewn perthynas ag effaith y Ddeddf ar y rheini heb hawl i gyllid cyhoeddus.

**15/12/2022** – Cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru a'r Fforwm Rhentu Cartrefi cytntaf yn fewnol i aelodau. Parhaodd hyn bob mis tan fis Mehefin 2023.

**19/12/2022** – Ateb gan Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd i'r Llythyr Agored.

**21/12/2022 –** Ateb gan Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd i'r llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol.

**11/01/2023** – Rhannu llythyr drafft gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol gyda Cymorth i Ferched Cymru i gael sylwadau.

**21/01/2023** – Rhannu Nodyn Cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru gyda Cymorth i Ferched Cymru i gael sylwadau gydag enwau aweinwyr awdurdodau lleol.

**01/02/2023** – Rhannu'r trydydd briffiad gyda Llywodraeth Cymru

**16/02/2023** – Cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru

**22/02/2023** – Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyr i Awdurdodau Lleol

**03/04/2023** – Rhannu'r pedwerydd briffiad gyda Llywodraeth Cymru



Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

**08/06/2023** – Cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469